# ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2015/16

**Cynghorydd:** Dafydd Meurig **Grŵp:** Plaid Cymru

**Ward:** Arllechwedd

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rôl a chyfrifoldebau:**
Aelod o'r Cabinet ers Ionawr 2015 gyda chyfrifoldeb dros Eiddo, Trafnidiaeth, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

**Gweithgareddau etholaethol:**

- Dwyn perswâd ar Brif Weinidog Cymru i addo ariannu Cynllun Atal Llifogydd Talybont / A55 gwerth £1.9m. Mae'r gwaith wedi dechrau a bydd wedi ei gwblhau erbyn Awst 2016.
- Dwyn pwysau ar Lywodraeth Cymru i drafod gyda datblygwyr sydd â diddordeb mewn sefydlu busnesau ar Ystâd Parc Bryn Cegin.
- Derbyn cadarnhad gan BT eu bod am wella'r ddarpariaeth rhwng Llanllechid ac Abergwyngregyn.
- Addewid gan Gartrefi Cymunedol Gwynedd y byddant yn dymchwel garejis Foel Ogwen, er mwyn ehangu'r cae chwarae. Yn dal i bwyso arnynt i symud ymlaen i wneud y gwaith o fewn y flwyddyn nesaf.
- Cynrychioli etholwyr gyda materion cynllunio yn Abergwyngregyn, Llanllechid a Phorth Penrhyn.
- Cynnal cymorthfeydd rheolaidd gydag Alun Ffred Jones, AC, a Hywel Williams, AS, yn Abergwyngregyn, Llandygâi a Thalybont.
- Rhoi cymorth i nifer o etholwyr gyda materion megis digartrefedd, tipio slei bach, torri coed, clirio afonydd, biniau baw ci, caeau chwarae, a gwlâu cocos Aber Ogwen.

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**

- **Partneriaeth Ogwen** – Cadeirydd y cwmni cymunedol sydd wedi dod â gwasanaethau yn ôl i ardal Dyffryn Ogwen. Bellach mae'r cwmni'n cyflogi tri pherson lleol, ac wedi agor siop gymunedol ym Methesda – Siop Ogwen – drwy gydweithrediad â Neuadd Ogwen.
- **Ynni Ogwen** – Cyfarwyddwr cwmni cymunedol sydd wedi llwyddo i godi bron i hanner miliwn o bunnau'n lleol, i ddatblygu cynllun trydan dŵr cymunedol ar yr Afon Ogwen. Mae'r gwaith adeiladu ar fin dechrau.
- **Cwmni Adwy** - Cyfarwyddwr ac Ysgrifennydd y cwmni nid-am-elw sy'n gosod eiddo ar rent fforddiadwy i fusnesau lleol yn hen ardaloedd chwareli Gwynedd.
- **Balchder Bro** - wedi ymuno gyda chriw gwirfoddol sy'n tacluso a chasglu ysbwriel o gwmpas yr ardal, ac wedi helpu i osod basgedi crog ar eiddo yn stryd fawr Bethesda.
- **Eryrod Eira** – Aelod o'r grŵp cymunedol sy'n clirio palmentydd Dyffryn Ogwen pa fo eira.
- **Chwarel y Penrhyn** – Aelod o bwyllgor cyswllt sy'n rhannu gwybodaeth rhwng y Chwarel a'r gymuned.
- **Llandygái** – Aelod o Bwyllgor Neuadd Talgái. Wedi helpu gyda chinio Nadolig pensiynwyr yn y ward.
- **Ysgolion** – wedi gwasanaethu ar Gorff Llywodraethu Ysgol Llandygái yn ystod y flwyddyn.

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:**

| PWYLLGOR | NIFER CYFARFODYDD * | PRESENNOL | AELOD LLEOL / SYLWEDYDD / CRAFFU | YMDDIHEURO | ABSENNOL |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | 4 | 0 | 2 | 2 | 0 |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| Cabinet | 14 | 13 | 0 | 1 | 0 |
| Cyngor | 6 | 5 | 0 | 1 | 0 |
| Fforwm Ardal Ogwen | 3 | 2 | 0 | 1 | 0 |
| Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 |

* NIFER CYFARFODYDD Y PWYLLGOR YN YSTOD 2015/16
Canran Presenoldeb: 85%

**Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir oherwydd:**

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**
Cynhadledd Cynllunio Cymru, Caerdydd
Gweithdai Her Gwynedd
Sesiwn Strategaeth Pobl Hŷn
Seminar Sefyllfa Ariannol y Cyngor
Sesiynau Gwybodaeth Grid Cenedlaethol
Codi Ymwybyddiaeth Deddf Cynllunio Cymru
Seminar Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
Grŵp Llywio Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr
Ymchwiliad i Gytundebau Cynllunio Adran 106
Gweithdy ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
Ymgynghori Cynllunio – TAN 20

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol neu'r cyfarfodydd canlynol:**
Pwyllgor Rheoli Traeth Lafan (Cadeirydd)
Bwrdd Trafnidiaeth Canolbarth Cymru
Bwrdd Trafnidiaeth Gogledd Cymru
Gweithgor Cae Ceffyl

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

| | **Dyddiad** |
|---|---|
| **Corfforaethol** | |
| Arwain yn Ddiogel | 19 Mai 2015 |
| Arwain Cymunedau trwy Newid | 3 Gorffennaf 2015 |
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru 2014) | 7 Gorffennaf 2015 |
| Sgiliau Cadeirio Effeithiol | 23 Medi 2015 |
| Bil Cynllunio (Codi ymwybyddiaeth Aelodau ac Aelodau APCE) | 5 Tachwedd 2015 |
| Modern Gov | 25 Tachwedd 2015 |
| Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb | 3 Rhagfyr 2015 |
| Gwybodaeth am Bobl: Eich Cyfrifoldeb Chi | 13 Ionawr 2016 |
| Yr Her Gofal – Paratoi am y Ddeddf | 21 Ionawr 2016 |
| Diweddariad ar y Cod Ymddygiad | 23 Mawrth 2016 |
| Dementia – Codi ymwybyddiaeth a datblygu cymunedau dementia cyfeillgar | 9 Mai 2016 |
| **Ychwanegol** | |
| Sgiliau Gwerthuso (Cabinet) | 14 Gorffennaf 2015 |
| Microsoft Office 2010 | 20 Ebrill 2016 |
| Datblygu Tîm Cabinet | 25 Ebrill 2016 |

**Cyfanswm nifer o oriau: 35**